Atodiad A

KPMG LLP
3 Assembly Square
Britannia Quay
CAERDYDD
CF10 4AX

| | |
|---|---|
| Eich Cyf/Your Ref: | |
| Ein Cyf/Our Ref: | SF/M27 |
| Dyddiad/Date: | 26 Medi 2011 |
| Gofynner am/Ask for: | S Forrest |
| Rhif Union/Direct Dial: | 01492 576179 |

Annwyl Fonwyr

**Datganiad o Gyfrifon Awdurdod Tân Gogledd Cymru 2010/2011**

Darperir y llythyr sylwadau hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a chronfa bensiwn y diffoddwyr tân am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 i ddiben mynegi barn p'un ai yw'r rhain:

i. yn rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod fel ar 31 Mawrth 2011 ac o wariant ac incwm yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

ii. yn rhoi golwg gwir a theg o drafodion ariannol cronfa bensiwn y diffoddwyr tân yn ystod y flwyddyn a ddaeht i ben ar 31 Mawrth 2011, a swm a lleoliad asedau ac ymrwymiadau'r gronfa fel ar 31 Mawrth 2011, ac eithrio ymrwymiadau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun;

iii. wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys Datganiad yr Awdurdod ar Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, Datganiad Cynhwysfawr yr Awdurdod ar Incwm a Gwariant, Mantolen yr Awdurdod, Datganiad Llif Arian yr Awdurdod a'r nodiadau cysylltiedig. Mae datganiadau ariannol cronfa bensiwn y diffoddwyr tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa, a'r Datganiad Asedau Net a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae'r Awdurdod yn cadarnhau bod y sylwadau a wneir ganddo yn y llythyr hwn yn unol â'r diffiniadau a nodir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Mae'r Awdurdod yn cadarnhau ei fod, hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred, wedi gwneud yr ymholiadau y tybia eu bod yn angenrheidiol i ddiben ei oleuo ei hun yn briodol:

**Datganiadau Ariannol**

1. Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau, fel y nodir yn rheol 8 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, i baratoi datganiadau ariannol sy'n:

    - rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod fel ar 31 Mawrth 2011, ac o wariant ac incwm yr Awdurdod am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- rhoi golwg gwir a theg o drafodion ariannol cronfa bensiwn y diffoddwyr tân yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, a swm a lleoliad asedau ac ymrwymiadau'r gronfa fel ar 31 Mawrth 2011, ac eithrio ymrwymiadau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ddiwedd blwyddyn y cynllun;

- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

Paratowyd y datganiadau ariannol fel busnes yn mynd rhagddo.

2. Mae'r dulliau mesur a'r rhagdybiaethau sylweddol a ddefnyddiwyd gan yr Awurdod wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

3. Mae pob digwyddiad a fu wedi dyddiad y datganiadau ariannol, ac sy'n gofyn am addasu neu ddatgelu dan God Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/2011, wedi cael ei addasu neu ei ddatgelu.

4. Nid yw effeithiau'r camddatganiadau oedd heb eu cywiro, boed yn unigol neu wedi eu cronni, i'r datganiadau ariannol o'u hystyried o'u cwr, yn bwysig.

**Yr Wybodaeth a Ddarperir:**

5. Ar eich cyfer, mae'r Awdurdod wedi darparu:

   - mynediad at yr holl wybodaeth y mae'n ymwybodol ei bod yn berthnasol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol, megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
   - gwybodaeth ychwanegol y gofynasoch amdani gan yr Awdurdod i ddiben yr archwiliad; a
   - mynediad dirwystr at bersonau o fewn yr Awdurdod yr oeddech yn tybio ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

6. Cofnodwyd yr holl drafodion yn y cofnodion cyfrifyddu, ac maent yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol.

7. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei gyfrifoldeb am y cyfryw reolaeth fewnol y mae'n tybio ei bod yn angenrheidiol ar gyfer paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau pwysig, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad. Yn benodol, mae'r Awdurdod yn cydnabod ei gyfrifoldeb am lunio, gweithredu a chynnal rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a chamgymeriad.

   Mae'r Awdurdod wedi datgelu i chi ganlyniadau ei asesiad i'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan yn sylweddol o ganlyniad i dwyll. Yn gynwysedig yn yr Atodiad i'r llythyr hwn, mae'r diffiniadau o dwyll, gan gynnwys camddatganiadau sy'n codi o adrodd ariannol twyllodrus ac o gambriodoli asedau.

8. Mae'r Awdurdod wedi datgelu i chi yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â:

   (a) Thwyll neu amheuaeth o dwyll y mae'n ymwybodol ohonynt ac sy'n effeithio ar yr Awdurdod ac sy'n ymwneud â:
   - rheolwyr;
   - gweithwyr sydd â rolau pwysig mewn rheolaeth fewnol; neu
   - eraill lle gallai'r twyll gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol; a

   (b) honiadau o dwyll, neu amheuaeth o dwyll, sy'n effeithio ar y datganiadau o dwyll a fynegir gan weithwyr, cyn-weithwyr, dadansoddwyr, rheoleiddwyr neu eraill.

9. Mae'r Awdurdod wedi datgan i chi bob achos o anghydffurfiaeth neu amheuaeth o anghydffurfiaeth â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol. At hynny, mae'r Awdurdod wedi datgelu i chi bob ymgyfreithiad hysbys gwirioneddol neu bosib y dylid ystyried eu heffeithio wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac wedi rhoi cyfrif priodol amdanynt a/neu wedi eu dateglu yn y datganiadau ariannol, a hynny yn unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

10. Mae'r Awdurdod wedi datgelu i chi enw partïon cysylltiedig yr Awdurdod a pherthnasoedd pob parti cysylltiedig, ynghyd â'r trafodion y mae'n ymwybodol ohonynt, a rhoddwyd cyfrif am berthnasoedd a thrafodion pob parti cysylltiedig, a'u datgelu yn unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Dyernas Unedig 2010/11.

    Yn gynwysedig yn yr Atodiad i'r llythyr hwn, mae'r diffiniadau o barti cysylltiedig a thrafodion parttiedig a thrafodion partïon cysylltiedig fel y mae'r Awdurdod yn eu deall ac fel y cânt eu diffinio yn IAS 24, ac eithrio lle bo dehongliadau neu addasiadau ar gyfer y sector cyhoeddus yn cael eu nodi yng Ngod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11 fel a ganlyn.

11. Ar sail y broses a sefydlwyd gan yr Awdurdod, ac wedi gwneud yr ymholiadau priodol, mae'r Awdurdod yn fodlon fod y rhagdybiaethau actiwaraidd sy'n sail i werth yr ymrwymiadau'r cynllun pensiwn yn gyson â'i wybodaeth o'r mater.

    Ymhellach, mae'r Awdurdod yn cadarnhau bod:

    (a) yr holl fuddion sylweddol sy'n ymwneud ag ymddeol, gan gynnwys unrhyw drefniadau sy'n:
    - statudol, cytundebol neu ymhlyg yng ngweithredoedd y cyflogwr;
    - codi yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon neu dramor;
    - yn cael eu hariannu neu heb gael eu hariannu; ac
    - yn cael eu cyemradwyo neu eu hanghymeradwyo,

    wedi cael eu nodi, a chyfrif priodol wedi ei roi amdanynt; a

    (b) pob setliad a chwtogiad wedi eu nodi, a cyfrif priodol wedi ei roi amdanynt.

Rhoddwyd y llythyr hwn gerbron y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2011, a chytunwyd arno.

Yn gywir,

Arwyddwyd gan

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd yr Awdurdod** | **Trysorydd i'r Awdurdod** |
| **Dyddiad** 26 Medi 2011 | **Dyddiad** 26 Medi 2011 |

**Atodiad A i Lythyr Sylwadau Rheolwyr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru: Diffiniadau**

**Datganiadau Ariannol**

Set gyflawn o ddatganiadau ariannol yn cynnwys:

- Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn am y cyfnod
- Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant am y cyfnod
- Mantolen fel ar ddiwedd y cyfnod
- Datganiad Llif Arian am y cyfnod
- Nodiadau, yn cynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu sylweddol a gwybodaeth esboniadol arall, a
- Mantolen fel ar ddechrau'r cyfnod cymharol cynharaf (h.y. trydedd Mantolen) pan fo awdurdod yn defnyddio polisi cyfrifyddu am yn ôl, neu'n gwneud ailddatganiad am yn ôl o eitemau yn ei ddatganiadau ariannol, neu pan fo'n ailddosbarthu eitemau yn ei ddatganiadau ariannol.

Mae gofyn i awdurdod lleol gyflwyno cyfrifon grŵp yn ychwanegol at ei gyfrifon un endid lle bo gofyn gan bennod naw o God Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11.

Ar gyfer cronfeydd pensiwn sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau pensiwn canlynol, rhaid i gyfrifon cronfeydd pensiwn gael eu paratoi:

a) Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer Cymru

Rhaid i ddatganiadau arianol cronfa bensiwn sydd â buddion gohiriedig, ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru a Lloegr, gynnwys:

a) Cyfrif cronfa sy'n datgelu newidiadau mewn asedau net sydd ar gael ar gyfer buddion.

b) Datganiad asedau net sy'n dangos yr asedau sydd ar gael ar gyfer buddion ar ddiwedd y flwyddyn.

c) Nodiadau i'r cyfrifon.

**Materion Pwysig**

Mae rhai sylwadau yn y llythyr hwn wedi cael eu disgrifio fel rhai sydd wedi eu cyfyngu i faterion sy'n bwysig neu sylweddol (*material*).

Mae hepgor neu gamddatgan eitemau yn bwysig os gallent, boed yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau neu asesiadau defnyddwyr sy'n cael eu gwneud yn seiliedig ar y datganiadau ariannol. Mae natur bwysig yn dibynnu ar natur neu faint yr hepgoriad neu'r camddatganiad, a hynny'n cael ei farnu yn yr amgylchiadau sydd o'u cwmpas. Gallai natur neu faint yr eitem, neu gyfuniad o'r ddau beth, fod yn ffactor sy'n penderfynu.

**Twyll ariannol**

Mae adrodd ariannol twyllodrus yn golygu camddatganiadau bwriadol, gan gynnwys hepgor symiau neu ddatgeliadau mewn datganiadau ariannol, a hynny er mwyn camarwain defnyddwyr y dattganiad ariannol.

Mae cambriodoli asedau yn golygu lladrata asedau endid. Mae'n aml yn digwydd law yn llaw â chofnodion neu ddogfennau ffug neu gamarweiniol, a hynny er mwyn celu'r ffaith fod yr asedau ar goll neu wedi cael eu haddo heb yr awdurdodiad priodol.

**Camgymeriad**

Camgymeriad yw camddatgan anfwriadol mewn datganiadau ariannol, gan gynnwys hepgor swm neu ddatgeliad.

Camgymeriadau cyfnod blaenorol yw hepgoriadau, neu gamddatganiadau, mewn datganiadau ariannol endid am un neu ragor o gyfnodau blaenorol sy'n codi o ganlyniad i fethu defnyddio, neu gamddefnyddio, gwybodaeth ddibynadwy a oedd:

a) ar gael pan awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi am y cyfnodau hynny, ac

b) y gellid yn rhesymol ddisgwyl eu cael a'u hystyried wrth baratoi a chyflwyno'r datganiadau ariannol hynny.

Mae camgymeriadau o'r fath yn cynnwys effeithiau camgymeriadau mathemategol, camgymeriadau wrth ddilyn polisïau cyfrifyddu, anghofio neu gamddehongli ffeithiau, a thwyll.

**Rheoli**

I ddiben y llythyr hwn, dylid darllen y cyfeiriadau at "reolwyr" fel "rheolwyr" a, lle bo'n briodol, "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu".

**Parti cysylltiedig**

Ystyrir bod partïon yn gysylltiedig pan fo gan un parti yr hawl i reoli'r parti arall neu ddefnyddio dylanwad sylweddol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol a gweithredol, neu os bydd endid y parti cysylltiedig ac endid arall yn agored i reolaeth.

Mae partïon cysylltiedig yn cynnwys:

a) endidau sydd yn uniongyrchol, neu'n anuniongyrchol trwy un neu'n ragor o ganolwyr, yn rheoli neu'n cael eu rheoli gan yr awdurdod (e.e. is-gwmnïau);

b) cysyllteion;

c) mentrau ar y cyd y mae'r awdurdod yn fenter ynddynt;

d) endid sydd â buddiant yn yr awdurdod sy'n rhoi dylanwad sylweddol iddo dros yr awdurdod;

e) staff rheolaethol allweddol, ac aelodau agos o deuluoedd y staff rheolaethau allweddol; a

f) chynllun buddiant ôl-gyflogaeth (cronfa bensiwn) er lles gweithwyr yr awdurdod neu unrhyw endid sy'n barti cysylltiedig i'r awdurdod.

Y staff rheolaethol allweddol yw pob prif swyddog (neu gyfatebol), aelodau etholedig, prif weithredwyr yr awdurdod a phersonau eraill sydd â'r awdurdod a'r cyfrifoldeb am gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgarwch yr awdurdod, gan gynnwys goruchwylio'r gweithgarwch hyn.

Bernir nad yw'r canlynol yn bartïon cysylltiedig gan God Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2010/11:

a) darparwyr cyllid yng nghwrs eu busnes o safbwynt hynny, ac undebau llafur yng nghwrs eu deliadau arferol gydag awdurdod yn rhinwedd y deliadau hynny; ac

b) endid y mae'r berthynas ag o fel asiantaeth yn unig.

**Trafodyn partïon cysylltiedig**

Trafodyn partïon cysylltiedig yw trosglwyddo adnoddau neu rwymedigaethau rhwng partïon cysylltiedig, boed pris yn cael ei godi neu beidio. Mae trafodion partïon cysylltiedig yn eithrio trafodion gydag endid arall sy'n barti cysylltiedig dim ond oherwydd ei ddibyniaeth economaidd ar yr awdurdod neu'r llywodraeth y mae'n rhan ohono.